

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIUYD A'R NOS LUN 27AIN O ORFFENNAF 2020 TRWY SKYPE AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Bari Evans, Arwel Davies, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Stan Williams, Ceri Davies, Philip Williams, Iwan Jones, Geraint Jones, Falmai Evans a Hywel Davies.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 29ain o Fehefin 2020 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi trwsio'r ffyrdd a oedd angen sylw a chodwyd.

B. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Cynghorydd Arwel Davies yn cadarnhau nid oes yna berchnogaeth wedi eu cofrestru ar y tir o gwmpas yr hen chwarel wrth Ysgol Prion. Y cam nesaf oedd gweld os oes yna hawliau mwynau yn y lleoliad a Chytunodd y Cynghorydd Davies i wneud yr ymholiad.

C. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Swyddog Cynllunio a Chydymffurfiaeth Cyngor Sir Ddinbych fod rhaid i'r berchnogaeth ynghyd a'r garafán fod o'r safle'r "Paddock" yn Saron erbyn diwedd 27ain o Orffennaf 2020. Adroddwyd yr aelodau'r Cyngor Cymuned fod y garafán dal mewn perchnogaeth a phenderfynwyd gofyn i'r Clerc tynnu sylw'r Swyddog Cynllunio a Chydymffurfiaeth o'r sylwadau.

6. DIWEDDARAF BAND EANG Y GYMUNED.

Ar ôl ystyried yr wybodaeth cyfarfod flaenorol y Cyngor penderfynwyd derbyn cynnig y Cadeirydd o gynhyrchu holiadur i'r holl drigolion y gymuned i weld yr opsiwn orau a oedd angen gan y trigolion. Cytunodd y Cadeirydd i baratoi'r cylchlythyr dros y Cyngor.

7. DIWEDDARAF MATERION COFID-19 YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers y cyfarfod blaenorol.

8. CYLLID.

A. Datganiad Banc £12,522.25.

B. Penderfynwyd yr aelodau i edrych ffafriol os dderbyniwyd ceisiadau am gefnogaeth arian oddi wrth Ysgolion Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr ac Ysgol Pant Pastynog oherwydd chostau ychwanegol "Cofid-19".

9. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio i'w thrafod.

10. GOHEBIAETH.

Wedi eu hadroddi yn barod yn y cofnodion.

11. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Adroddwyd y Cynghorydd Joseph Welch:-

A: Mi fydd cyfarfodydd y Sir yn ailgychwyn yn ystod mis Medi trwy "Webex".

B. Ysgolion yn ail agor yn ystod mis Medi.

C. Ymgynghoriad ffyrdd unffordd yn drefi'r Sir oherwydd "Cofid-19".

12. MATERION BRYN O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych fod safle'r Sir wrth Brÿn Glas yn Saron yn orlawn gyda baw'r ffyrdd ac mae angen ei chlirio.

B. Cytunodd y Cynghorydd Bari Evans i reoli'r gwaith sydd eu hangen ar eiddo'r Cyngor wrth Nant-y-Felin yn Llanrhaeadr.

13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 28ain o Fedi 2020 am 7.30 o'r gloch a'r lleoliad i'w chadarnhau.